






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Grŵp Cynggori Technegol

Datganiad consensws:

Profion post-mortem

17 Gorffennaf 2020



Grŵp Cyngkori Technegol COVID-19 Llywodraeth Cymru

Datganiad Consensws: Profion post-mortem

Cefndir

- Gofynnwyd i'r Grŵp Cyngkori Technegol i ystyried hyfywdra profi ar gyfer haint SARS-CoV-2 ar ôl marwolaeth yr unigolyn.

Consensws

- Mae'r Centers for Disease Control and Prevention wedi adolygu tystiolaeth a gyhoeddwyd ynglŷn â chymryd sampl o feirws SARS-CoV-2 o'r system anadlu isaf. Darganfyddwyd:
“Nad oes data ar gael ar hyn o bryd ar ba mor aml y canfyddir coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2), sef y feirws sy'n achosi COVID-19, drwy brawf RT-PCR ar swabiau post-mortem a gasglwyd ar wahanol gyfnodau ar ôl y farwolaeth. Os ystyrir cynnal prawf COVID-19 ar sbesimen swab post-mortem ar gyfer achos posibl o COVID-19, efallai y gellir canfod RNA SARS-CoV-2 hyd at 3 diwrnod ar ôl y farwolaeth ac efallai yn hirach yn seiliedig ar y data sydd ar gael o brofiadau gyda MERS-CoV a SARS-CoV; ond efallai y bydd llai o sensitifrwydd gyda chyfnod post-mortem hirach, ac efallai y bydd angen ystyried hyd y salwch wrth ddehongli canlyniad negatif.”
- Felly mewn achosion lle mae rheswm clinigol dros gynnal prawf diagnostig e.e. yr amheuir haint SARS-CoV-2, gellir cymryd samplau o fewn 3 diwrnod i'r farwolaeth ar gyfer prawf RT-PCR gyda thebygolrwydd rhesymol o ganfod feirws os yw'n bresennol.
- Amheuir gwerth sgrinio post-mortem heb ei dargedu at ddibenion gwyliadwriaeth pan na amheuir COVID-19 ac nid yw'n cael ei argymhell ar hyn o bryd.
- Dylid adolygu'r polisi profion post-mortem yn barhaus a gall newid mewn ymateb i dystiolaeth newydd, er enghraifft tystiolaeth sy'n cefnogi profion a dargedwyd mewn cohort penodol a diffiniedig.

Cyfeirio

- 'Collection and Submission of Postmortem Specimens from Deceased Persons with known or Suspected COVID-19'; Centers for Disease Control and Prevention; diwygiwyd 15 Mehefin 2020; <https://www.cdc.gov/coronavirus/2019-ncov/hcp/guidance-postmortem-specimens.html#submission-specimens>; Darllenwyd 23/06/2020.